Edward Chad Varah 1911–2007

Offeiriad a sefydlydd y Samariaid

Ganwyd Edward Chad Varah ar 12 Tachwedd 1911 yn Barton-upon-Humber, Swydd Lincoln, yr hynaf o naw o blant ficer Eglwys St Peter. Fe'i henwyd ar ôl Sant Chad, a sefydlodd fynachlog yn y seithfed ganrif yn Barrow a oedd yn agos at y ficerdy yn Barton.

Derbyniodd addysg yng Ngholeg Worksop yng ngogledd Swydd Nottingham ac enillodd ysgoloriaeth i astudio'r gwyddorau naturiol yng Ngholeg Keble, Rhydychen. Yn fuan collodd ddiddordeb yn hynny a newidiodd i astudio athroniaeth, gwleidyddiaeth ac economeg, gan raddio ym 1933. Yn dilyn hynny aeth i astudio yng Ngholeg Diwinyddol Lincoln ac fe'i hordeiniwyd fel diacon yn Eglwys Loegr ym 1935 ac fel offeiriad ym 1936. Gwasanaethodd am gyfnod fel ciwrad yn eglwys Sant Giles, Lincoln, yn Eglwys y Santes Fair, Putney, ac yna yn Barrow-in-Furness.

Ym 1942 fe'i penodwyd yn ficer ar Eglwys Holy Trinity, Blackburn, a symudodd ym 1949 i Eglwys Sant Paul, Clapham Junction. Ym 1953 daeth yn rheithor eglwys Sant Stephen Walbrook a adeiladwyd gan Christopher Wren, dros y ffordd i'r Mansion House yn Ninas Llundain. Fe'i gwnaed yn Brebendari* er anrhydedd yn Eglwys Sant Paul ym 1975 ac fe ymddeolodd yn 2003 pan oedd yn 92 oed. Roedd yn un o sylfaenwyr y comic poblogaidd *The Eagle* a ymddangosodd yn y 1950au.

Ei waith pwysicaf a mwyaf pellgyrhaeddol oedd sefydlu mudiad y Samariaid. Gwelodd yr angen am gyfrwng i gynorthwyo pobl oedd am wneud amdanynt eu hunain a hynny mewn angladd ym 1935. Yn ei angladd cyntaf fel ciwrad yr oedd yn claddu merch bedair ar ddeg oed a wnaeth amdani ei hun oherwydd bod ei misglwyf wedi dechrau. Ofnai ei bod wedi dal haint rywiol a chan nad oedd ganddi neb i droi atynt am gyngor rhoddodd derfyn ar ei bywyd. Dywedodd Varah yn ddiweddarach, 'Ferch fach, nid oeddwn yn dy adnabod, ond newidiaist weddill fy mywyd er gwell.' Addawodd bryd hynny y byddai'n hyrwyddo addysg rywiol ac yn helpu pobl oedd yn ystyried lladd eu hunain. Bryd hynny roedd

ceisio cyflawni hunanladdiad yn anghyfreithlon ac felly roedd ar bobl ofn trafod y pwnc.

I'r diben hwnnw sefydlodd y Samariaid ym 1953 yng nghrypt ei eglwys. Y bwriad oedd darparu llinell bedair awr ar hugain i roi cefnogaeth a chymorth emosiynol i bobl fyddai'n galw. Byddai'r holl sgwrs yn gwbl gyfrinachol. Derbyniodd y llinell ffôn, MAN 9000, yr alwad gyntaf ar 2 Tachwedd 1953, a chynyddodd y galwadau yn fawr wedi i'r *Daily Mirror* roi cyhoeddusrwydd i'r gwasanaeth yn Rhagfyr 1953. Trwy hynny sylweddolwyd maint yr angen a'r angen am wirfoddolwyr i gynorthwyo. Cynyddodd y diddordeb a sefydlwyd canghennau eraill ar hyd a lled gwledydd Prydain. Yr oedd y gyntaf o'r rheini yng Nghaeredin o dan arolygiaeth y Parch. Jim Blackie lle roedd 118 o wirfoddolwyr yn gweithio. Erbyn 1963 roedd 41 o ganghennau yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon a'r flwyddyn honno cofrestrwyd y Samariaid fel cwmni cyfyngedig. Ym 1970 prynwyd tŷ yn Slough, Llundain, ac yno sefydlwyd swyddfa gyffredinol y mudiad. Varah oedd cyfarwyddwr cangen Llundain o'r Samariaid hyd 1974. Bu farw mewn ysbyty yn Basingstoke ar 8 Tachwedd 2007.

*Prebendari yw canon sydd yn derbyn blwydd-dâl o goffrau eglwys gadeiriol.